# Datganiad Llywodraethu Blynyddol – 2024/25

Crynodeb Gweithredol

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn ystyried pa mor effeithiol y mae ein trefniadau llywodraethu wedi bod yn 2024/25 ac yn edrych ymlaen at welliannau a blaenoriaethau posibl ar gyfer 2025/26.

Sicrwydd

Ystyrir bod trefniadau Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor yn dderbyniol yn seiliedig ar y lefel sicrwydd 'Uchel' a bennir gan Adolygiad Archwilio Mewnol y Cyngor o’r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol a Llywodraethu Corfforaethol.
Mae'n bwysig bod Datganiad Llywodraethu yn cynnwys gwerthusiad a chasgliad ac yn rhoi barn glir ynghylch a yw'r trefniadau llywodraethu a amlinellir yn addas i'r diben.
I alluogi'r farn hon cynhaliodd gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor adolygiad o'n trefniadau yn erbyn y safonau a fabwysiadwyd. (gweler isod).

| **Canfyddiadau Adolygiad Archwilio Mewnol Cyngor Sir Caerfyrddin o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a Llywodraethu Corfforaethol** | |
|---|---|
| Lefel y Sicrwydd ar ôl yr Adolygiad | Disgrifiad o Lefel y Sicrwydd |
| Uchel | Ceir system rheolaeth fewnol gadarn, mae'n gweithredu'n effeithiol ac yn cael ei rhoi ar waith yn gyson i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion yn y maes a archwiliwyd. |
| Ni chanfu Archwilio Mewnol unrhyw faterion rheoli hanfodol y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i ymdrin â nhw. | |

Cwmpas y Cyfrifoldeb: Fframwaith a Strategaeth Gorfforaethol

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gyflawni yn unol â’r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, bod cyfrif priodol amdano a’i fod yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r mesurau a'r cyfrifoldebau llywodraethu y mae'r Awdurdod yn ymgymryd â nhw i sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu cynnal:

| | |
|---|---|
| Grŵp Llywodraethu Corfforaethol | Mae'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol, sy'n cynnwys swyddogion allweddol a 2 Aelod Cabinet, ar waith i ddarparu gwybodaeth a monitro'r camau a gymerir o ran materion sy'n effeithio ar Lywodraethu. Mae hyn yn cynnwys y Côd Llywodraethu Corfforaethol, a gafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Mehefin 2012 a'i ddiweddaru'n fwyaf diweddar ym mis Gorffennaf 2021. |
| Fframwaith CIPFA/SOLACE | ‘Delivering Good Governance in Local Government’ (Nodiadau Canllaw ar gyfer Awdurdodau Cymru (Argraffiad 2016) – cyhoeddwyd ym mis Medi 2016). Mae'r fframwaith hwn yn clustnodi 7 prif egwyddor llywodraethu da sy'n ategu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae Côd Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod yn cydnabod polisïau a phrosesau yn unol â'r 7 egwyddor a fabwysiadwyd yn y fframwaith. |

## A: Edrych Ymlaen a Chynllun Gweithredu: Heriau a Blaenoriaethau

I grynhoi:

**Yr Hyn a Gyflawnwyd**

- Ystyriwyd bod trefniadau Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor yn dderbyniol, yn seiliedig ar y lefel sicrwydd 'Uchel' a bennwyd gan Adolygiad Archwilio Mewnol, gyda system gadarn o reolaeth fewnol yn gweithredu'n effeithiol.
- Ni chanfu Archwilio Mewnol unrhyw faterion rheoli hanfodol y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i ymdrin â nhw.

- **Egwyddor A - Uniondeb a Gwerthoedd**
  - Cynhaliodd y Pwyllgor Safonau safonau ymddygiad uchel a darparodd hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad i Gynghorwyr Sir a Chynghorau Tref a Chymuned
  - Cafodd Cyfansoddiad y Cyngor ei adolygu'n gyson i sicrhau tryloywder o ran llywodraethu, atebolrwydd a gwneud **penderfyniadau**

- **Egwyddor C – Gwneud Gwahaniaeth -** Sicrhawyd bod prosesau cynllunio busnes y Cyngor yn cyd-fynd yn llawn ag Amcanion Llesiant a Blaenoriaethau Thematig a Gwasanaeth y Strategaeth Gorfforaethol
- **Egwyddor E - Gwerthfawrogi ein pobl; ymgysylltu, arwain a chefnogi -** Cadwodd y Cyngor lefel Platinwm o ran cydnabyddiaeth y Safon Iechyd Gorfforaethol ym mis Mawrth 2023

**Gwelliannau**

- **Egwyddor B – Bod yn agored ac Ymgysylltu**
  - Cyflwynodd y Cyngor rôl Swyddog Rheoli Cwynion newydd i gefnogi’r gwaith o reoli ymatebion, gan roi ffocws cychwynnol ar gwynion Cam 2
  - Cymeradwywyd Strategaeth Gynnwys y Cyngor gan y Cabinet ym mis Ebrill 2025
  - Sicrhawyd bod Cynllun Cyfathrebu’r Cyngor yn cyd-fynd â’r Strategaeth Gorfforaethol newydd a’r Amcanion Llesiant

- **Egwyddor F - Rheoli Risgiau, Perfformiad a Chyllid**
  - Cafodd Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor ei hadolygu a'i diweddaru, gydag argymhellion ar gyfer gwella a chynnydd
  - Diweddarwyd system recriwtio'r Cyngor, a darparwyd hyfforddiant i sicrhau prosesau recriwtio symlach

**Ffocws ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf**

- **Egwyddor C – Gwneud Gwahaniaeth** - Bydd y Cyngor yn parhau i hyrwyddo Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r egwyddor datblygu cynaliadwy

- **Egwyddor D – Sicrhau ein bod yn cyflawni'r hyn y mae'n fwriad gennym ei wneud**

  - Bydd y Cyngor yn parhau i wella'r defnydd o wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau i lywio Adroddiadau Monitro Rheoli Perfformiad chwarterol
  - Bydd y Cyngor yn datblygu'r Gyfres Ddata Gorfforaethol i gefnogi'r Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer 2022-2027 a meysydd polisi allweddol
  - Bydd y Cyngor yn cynnal yr Asesiad Perfformiad gan Banel ar gyfer Sir Gaerfyrddin ac yn ymateb i'r canfyddiadau yn unol â'r Canllawiau Statudol.

- **Egwyddor F – Rheoli Risgiau, Perfformiad a Chyllid**
    - Cynllunio Ariannol Tymor Canolig - angen gwneud gwaith pellach ar alinio â'r Strategaeth Drawsnewid a'r Strategaeth Gorfforaethol

- **Egwyddor G – Tryloywder ac atebolrwydd da -** Bydd y Cyngor yn sicrhau ymagwedd gadarn at seiberddiogelwch ac atebion cynaliadwy ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth

Dros y flwyddyn nesaf bwriadwn gymryd camau i fynd i'r afael â'r materion Llywodraethu y mae angen eu hystyried a rhoi sylw iddynt yn ystod y 12 mis nesaf er mwyn cryfhau ein trefniadau Llywodraethu ymhellach.

I weld y Datganiad Llywodraethu Blynyddol llawn, cliciwch fan hyn.